



llun:Alun Williams

## Dwy fran goesgoch uwchben Mynydd y Dref, Conwy.

22 Ebrill 2012 SH759777

Rhai o enwau yng nghasgliad Dewi Lewis ("Rhagor o Enwau Adar", Gwasg Carreg Gwalch, 2006)

bran Arthur (Môn)  
bran cochbig  
bran Cernyw (Morgannwg)  
palores  
brán Iwerddon  
bran bicoch (Pen Llyn)  
bran Penmaenmawr



Tŷ Hanesyddol — Y Fedw Deg

Yr hen dy a'r tŷ newydd wrth ei ochr



Meini anferth yn creu'r hen borth

### O bapur Bro Yr Odyn Ebrill 1994

Mae'n werth mynd i'r Fedw Deg - Dyffryn Lledr islaw yn agor allan i Ddyffryn Conwy ac ucheldir Dolwyddelan a Chapel Curig yn codi o'ch blaen at Foel Siabod, gyda'r Wyddfa ar y naill ochr iddo a'r Carneddau ar yr ochr arall. Ond mae'r Fedw Deg yn bwysig hefyd am resymau eraill - gwerth pensaernïol yr hen dy a'i gysylltiad hir efo hanes a chwedloniaeth. Mae'r hen dy, y chwalwyd rhannau ohono i godi'r ty presennol, yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg gydag olion adeilad hyn gerllaw. Un o'i nodweddion amlycaf yw'r fynedfa flaen o fwa llechfaen anferth wedi ei gosod ar ddwy golofn lydan, hefyd o lechfaen. Bron nad yw'n atgoffa rhywun o fynedfa i gromlech o'r cyn-oesau! Mae'r lle tan a choed y to gwreiddiol yn dal yno ac yn enghreifftiau gwych o bensaernïaeth cyfnod y Tuduriaid. Yn yr Oesoedd Canol ymddengys bod y Fedw Deg yn perthyn i dywysogion Gwynedd - yn un o'r hafotai a oedd yn cyflenwi Castell Dolwyddelan efallai. Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yn perthyn i Gruffydd ap Dafydd Goch, wyr i Dafydd arall, sef brawd Llywelyn ein Llyw Olaf. Disgynyddion i'r teulu hwn oedd Gethiniaid y Fedw Deg, y mae carreg fedd iddynt ym Mynwent Penmachno gyda'r dyddiad 1621 ami. Arferai arfbais y teulu o 'lew gwyn rampant ar gefndir coch' fod uwchben eu set yn Eglwys Penmachno tan ganol y ganrif ddiwethaf. Ond yn ol at Gruffydd ap Dafydd Goch. Bu'n ymladd yn Ffrainc gyda'r Tywysog Du (ar ochr Lloegr!) yn ystod teyrnasiad Edward III. Gwelir delw ohono yn yr hen eglwys ym Metws-y-Coed yn gwisgo arfwisg milwr, ei draed yn gorwedd ar lew a'i ben ar aderyn a deilen

dderw yn ei big gyda'r geiriau HIC IACET GRUFYD AP DAFYDD GOCH AGNUS DEI MISERE MEI -Yma y gorwedd Gruffydd ap Dafydd Goch, bydded Oen Duw yn drugarog wrthyf. Yn ol y son roedd yn ddyn mawr iawn a chafwyd gryn drafferth i gludo ei gorff i lawr o'i gartref i'w gladdu yn y Betws ar hyd y llwybr serth tuag at Tannallt, a elwid wedyn ar lafar gwlad yn lwybr Gruffydd ap Dafydd Goch. Cyfeiria Gethin Jones (1816-1883) at Dafydd Goch Gethin o'r Fedw Deg gan ei gysylltu a chwedl gwiber y Wybrnant. Roedd yn wiber "anferth o faintioli . . . wedi magu esgyll ehedog". Codai ofn ar bawb a phopeth yn y cyffiniau, Yn ffodus daeth Dafydd Goch adref wedi bod yn rhyfela yn Ffrainc a lladdodd y wiber drwy ei saethu a bwa ac yna neidio i'r "llyn sy'n tare ar Ryd y Gynnen" ger Bont y Pandy dros afon Machno rhag ofn i'r wiber, rhwng byw a marw, syrthio ar ei ben a'i wenwyno. Tybiai y byddai llif y dŵr yn golchi unrhyw wenwyn ymaith! Ceir rhagor o gymysgfa o hanes a chwedloniaeth yn gysylltiedig a'r Fedw Deg gan Gethin. Dywed mai'r olaf o deulu'r Gethiniaid i fyw yno oedd Ffowc Gethin, tad i Barbara Ffowc Gethin "y farddones wych honno a syrthiodd mewn cariad a Dafydd Morris, Blaen-y-Cwm" (o Ddol Gam, Capel Curig, yn ol fersiwn R.M. Williams yn Seiri Cerdd Nant Conwy o'r chwedl) a oedd yn gweini yn fferm Glyn Lledr. Roedd Dafydd yn delynor gwych ond gwrthodai teulu Barbara iddi wneud dim ag o, ac fe'i danfon-wyd i Langelynn ger Conwy lie y bu farw wedi torri ei chalon. Dyma fersiwn Gethin o ddau o'r penillion adnabyddus a ganodd Barbara i'w chariad: Telyn wen yn llawn o danau Wnaed yng Nghoed y Glyn yn rhywle Ac mae'n rhaid bod honno'n hwylus o waith dwylaw Dafydd Moryss Dafydd Morus a'i fwyn delyn Gwyn fy mynd pe cawn dy ganlyn Ac yn y nos bod yn dy freichiau A dawnsio'r dydd lie canet tithau. Dywed Gethin i ddau frawd Barbara gael eu lladd yn ymladd "lyn rhyfel Yspae" ac felly "darfu am hen linach wronaidd y Cethiniaid". Daeth stad y Fedw Deg yn eiddo i Dafydd Price, Pennant, Ysbyty Ifan o linach Elis Prys, y 'Doctor Coch'. Parhaodd ym meddiant y Pric eiaid hyd at 1845 pan werthwyd y stad "o dyddyn i dyddyn", nes gwer-thu'r olaf un, sef Tyddyn Gethin i Gethin Jones ei hun ym 1852 Gyda choed pinwydd o amgylch y Fedw Deg ers blynnyddoedd bellach, prin fod bedwen i'w gweld ond yn sicr mae'r tegweh yno o hyd a rhyw rin arbennig sy'n tywys ein meddyliau'n ol dros y canrifoedd.

## Petris, Padog a Llanrwst

Pan oeddwn yn fachgen ifanc yn y chwedegau ac yn mynd i saethu gyda fy nhad roeddwn yn gweld yr aderyn yma yn aml ond bellach mae yn aderyn gweddol brin yng Nghymru.



Awst 20fed 1934: Torri gwair hefo pladur yn Nghae Tan Ty. Cael andros o fraw — petrisen yn ymosod arnaf. Honno hefo nyth a llawer iawn o gywion bach yn y gwair. Dechrau torri gwair yn pen arall i'r cae. Dipio wyn a defaid yn twb dipio Ty Nant yn y Foty.

Dyddiadur DO Jones, Padog

Nid oeddwn yn disgwyl gweld yr aderyn yma wrth i mi deithio i Lanrwst ar draws fynydd Hiraethog. Mawrth 28. SH842550

Stori a lluniau gan Alun Williams

Awst 24ain 1934: Torri gwair yng Nghae cefn Ty Pwll hefo ceffylau a'r injan wair. Gorfod stopio yn sydyn, nyth Rhegen yr Yd nny gwair-twyso y ceffylau a'r injan rownd y nyth. Wythnos gyfnewidiol - haul a glaw..

Dyddiadur DO Jones, Padog



## Tas a helm...MWY (Bwletin 51)

Mi gawd barn Mam! Heb glywed am 'rhic' (er syndod i fi - wi wedi clywed y gair yn eitha siwr). Yn barnu mai dim ond yng ngyd-destun llafur byddid yn arfer helm, tra bod tas yn rhywbeth mwy cyffredinol (tas o fawn, tas o wair....) ond mae rhain i gyd yn cydymffurfio a Sir Aberteifi - tas o wair, tas o fangyls..... Ond helm o lafur (cyffredin mewn enwau - Bronhelem etc)

Gwyn Williams

## The Ffeg

Fferm *The Ffeg*, heb fod ymhell o Much Wenlock, Swydd Amwythig, SO551934. Gofynais i berchen y fferm (Awst 2011) beth oedd ystyr yr enw ac mi ddywedodd mai gwair tal melyn heb ei dori ydyw (mi bwyntiodd at rhyw hen sgrwff ar ymyl y ffordd). Fe'm syfrdanwyd - dyna 'union' ystyr y gair ar lafar heddiw ym Meirionnydd - "hen ffeg" y dydwent am borfa wedi ei esgeuluso. Da de! DB

A dyma enghraifft o ddyddiadur DO Jones:

Bryn Draenen, Cwm Eidda 14 Chwefror 1936: Llosgi hen ffeg y rhosydd — pob man yn ddu golsyn. Dim defaid diarth yn dod drosodd.

Dyddiadur DO Jones, Padog (gyda chaniatad papur bro Yr Odyn a'r teulu)

Ydych chi'n gyfarwydd a'r gair? O ble? Beth am lun o'r union beth yr ydych chi'n ei ddeallt wrth y gair.

## Gwellt a gwair - chwith a de

Mae nifer o lyfrau mewn ysgolion dwyieithog yn Llydaw yn dwyn yr enw 'Plouz-foenn' (gwellt-gwair). Cyfeiria'r teitl i amser rhyfeloedd gwahanol yn Ffrainc pan nad oedd milwyr Llydewig, ffermwyr y rhan fwyaf, nad oedd yn medru fawr o Ffrangeg, ac wrth fartchio roedd y sarjant yn gweiddi arnynt "plouz-foenn" yn lle un-dau neu *droit-gauche*.

Dominig Kervegant

Cofiaf innau stori debyg gan dad i Richard Williams, fy nghyn-gydweithiwr o Fôn, am filwyr uniaith Cymraeg yn y rhyfel gyntaf yn marchio i synnau "gwellt-gwair" am yr un rheswm, a'r ymadrodd wedi parhau ar fferm y teulu i helpu Richard fel plentyn bach i wahaniaethu ei la chwith a'i law dde. Oes gan rhywun ychwanegiad i'r stori fach hon? Gol.

## Wystrys mwya'r byd?

Gall hwn fod y wystrys mwyaf i'w weld ym Mhrydain? Isod o'r Guardian yn 2009 am un arall: *It measures 18cm (7ins) across and weighs 1.36kg (3lbs), apparently the largest recorded in British waters. The previous largest, found in Scotland, weighed 0.83kg (1.8lbs).*

Fe'i cafwyd ar draeth y Foryd yn Llanfaglan gan Tony Lovell, Caernarfon.



llun:Ifor Williams

## Pos y Mis



Pwy ydw i - gwas neidr, pry'cop neu gorrin, ynteu mursen?. Cewch weld llun cyfan ohono/ohoni yn y rhifyn nesaf (neu gynt - gair i gall). Tynnwyd y llun ym Mhensychnant, Mai 5ed.

Pos a llun gan Alun Williams

Atebion fel arfer trwy fotwm Cysylltwch ar y wefan erbyn 15 Mehefin. Tocyn llyfr o £10 i'r sawl sy'n anfon yr ateb cywir cyntaf.

Enillydd pos y mis diwethaf, sef yr enw Cymraeg gorau ar y *golden-headed manakin* oedd Bryan Jones, Llangamarch gyda'i *Corrach pen-auraid*. Lekio hwnna! (bwm-bwm! - cofio pam bod hwn'n a'n joc mor dda?).

Gyda llaw yr enw a fathwyd gan y tim sydd yn creu rhestr o enwau Cymraeg ar adar y byd yw *manacin pen auraid* (am y rheswm fod y manacinaid yn ffurfio grwp taclus ar eu pen eu hunain).

## Pigion o ddyddiadur Bulkeley

Mae cofnodion William Bulkeley yn ymddangos fwyfwy yn y Tywyddiadur erbyn hyn diolch i waith Sue Walton a chefnogaeth ariannol Cyngor Ynys Môn a Phrifysgol Bangor. Dyma bigion diddorol:

19th Hyd 1736. The Wind N.W. & by N.

Fair, sun-shiny dry weather, & very calm, my people still at the Same work, except some that I have scatering useless hedges at Ferem to make the fields larger & more uniform



Dyddiadur William Bulkeley

Chwalu cloddiau - a ninnau'n meddwl mai ffenomenon yr hanner canrif ddiwethaf yw hyn!

Nov.14th 11 The Wind E.S.E. very cold, dark & cloudy, did not freeze but thawed very gently, finished to day pruning the trees in Cae ty'n y LLwyn, except the great Maple (vulgarly called Sicamore) which I reserve till spring.

Pwy fasa'n meddwl - y gair sicamor yn gomon!

Llun: gwrychoedd ym Maldwyn ger Llanbryn-mair i'w gweld o'r A470

## Gwair Rhos

Neges gan Gwyn Williams: "Elli di ofyn i'th gynulleidfa Llên Naturaid am unrhyw wybodaeth am wair cwta a gwair rhos?" A dyma fi'n gwneud! "Mae Iwan a fi wedi bod yn cyfnewid meddyliau am y pwnc ond heb unrhyw wybodaeth uniongyrchol. Dim ond o edrych ar Google am 'gwair rhos' a 'gwair cwta', mi weli di bod lot o bytiau digon diddorol i'w cael, ac mae hi'n glir i fi erbyn hyn na ellir eu cysoni nhw (a briwsion eraill o fannau eraill) heb dderbyn o'r dechrau ei bod hi'n eitha posib bod nifer o wahanol arferion/rywogaethau o wair/amseroedd o'r flwyddyn ynghlwm â'r cwestiwn. E.e. welais i ryw bennill o eiddo Tilsli ar y we yn awgrymu mai mis Medi oedd mis y gwair rhos, ond mae pobol eraill yn cyfeirio at gynhaeafu gwair cyn iddo aeddfedu. Gellid dehongli cyfeiriad arall i feddwl bod gwair rhos a gwair rhos cwta yn bethau gwahanol. Y cwestiynau i'n cyfeillion: - ymhle yng Nghymru oedd pobl yn arfer torri gwair cwta neu wair rhos? - oes gwahaniaeth rhwng 'gwair rhos' a 'gwair cwta'? H.y. a arferid y DDAU enw (neu eu tebyg) yn yr un ardal ac os hynny, am beth? - pwy weiriau a dorrid fel gwair cwta a gwair rhos (gwellt y bwla, gwrychyn mochyn....)? Unwaith eto, byddai gwybod oedd gwahanol weiriau yn cael eu torri yn yr UN ardal yn diddorol. Pryd oedd y cynhaea?"

## Y Ffenigl Enfawr...MWY



Yn Rhifyn 40 cawsom hanes y ffenigl enfawr *Ferula communis* o Cyprus gan Sue Lindsey. Yn ddiweddarach gwelodd Sue y canlynol yn hanes Prometheus i blant ar wefan <http://www.dltk-kids.com/world/greece/m-story-prometheus-fire.htm> .....Prometheus didn't answer, but he had set his heart on helping mankind, and he did not give up. As he was walking by the seashore he found a tall stalk of fennel. He broke it off and then saw that its hollow center was filled with a dry, soft substance which would burn slowly and stay alight for a long time. He carried the stalk with him as he began a long journey to the top of Mount Olympus.

Tybed ai o'r ffenigl enfawr y daeth y ffagl Olympaidd wreiddiol...mond gofyn! Gol.

## Brain gwynion


6 Mai 1935 Padog ... nodi yr wyn, mynd a'r defaid a'r wŷn i mynydd Hafnant. Ffeindio tua deg i ddeuddeg o nythod llwyd y brwyn [enw lleol ar gorheddyd y waun yn ôl cyfrol Dewi Lewis, Enwau Adar\*] ar hyd y ffordd i fyny at Foel Gopyn a wedyn at yr adwy ddwr. Mynd a'r defaid i'w cynefin at Llyn Brain Gwynion. Gwyllo rhai o'r brain gwynion — y Gwylain Benddu — yn nythu ar ynys ar ganol y llyn a chriw mawr ohonynt uwch ein pennau. Dod yn ôl a mynd i Ysbyty Ifan i Silver Jiwbili y Brenin Siôr y pumed. Te a sports yn y Llan. Tanio coelcerth fawr ar ben y cefn yn y nos. Cael mwg i gofio yr amgylchiad. Dyddiadur DO Jones



Llun: Eifion Griffiths, Llanddulas, 17 Mawrth, 2010.

Meddai Dewi: "mi faswn i yn deud bod "brain gwynion" yn digon dilys i'w gynnwys yn y rhestr" \*Gwasg Carreg Gwalch

## Gwanwynau Llys Awel



Dyma graff diweddar gan ein meteorolegydd Huw Holland Jones wedi ei seilio ar ei gofnodion yn Llys Awel Waunfawr.

Ar y chwith mae'r swm crynhoadol y tymheredd dyddiol ers dechrau'r flwyddyn - sylwch fel y mae tymheredd mis Mawrth (saeth goch) wedi rashio eleni o flaen y blynyddoedd eraill cyn cael ei atal gan oerni mis Ebrill.


## Ymddangosiad cynnar y fursen fawr goch



Following day, Sue Loose managed to find a mature Large Red Damselfly along with two exuviae at the top pond on the recording day at Gwaith Powdwr Nature Reserve. Alun Williams photographed a male of the species at Pensychnant on the 5th May [uchod]. Allan Brandon, Rowen (Cylchlythyr Gog, Cymru yr arolwg Gwleision Neidr

After the exceptionally early emergence of Large Red at my garden pond on the 6th April the weather returned to the usual wet and cold and as a result there was no activity until the 24th April. To show how unusual this event was, the Recorder 6 generated phenology chart shows the weekly cumulative timing of all recorded adult occurrences to the end of the last flight season in available datasets for North Wales. The warm and sunny morning of the 24th April was a one off amid a run of windy, rainy days and at least 20 adults simultaneously emerged from my garden pond.

Despite the wet weather on the



## O Oriel Keith O'Brien



Ceiliog y grugiar ddu, ardal Trawsfynydd 23 Ebrill 2012

## Vallhund - y corgi Swedaidd



Ci un o ymwelwyr i barc gwledig Ashridge, swydd Hertford, Lloegr yw hwn. Er mwyn torri gair cyfeillgar mewn cyfnod braf o Fawrth (cofio hwnnw?) bu i mi ganmol ei CHORGI!! O diar, nid corgi mohono o gwbl ond vallhund sef, i bob pwrpas, y corgi Swedaidd.

Dyma ddywed Wiipedia: *The Swedish vallhund is a breed of dog. It is believed that the Swedish vallhund distinguished itself during the age of Vikings, more than 1,000 years ago. Known as the "Viking dog", the vallhund were bred to herd cattle, catch vermin (such as rats), and guard the home. The vallhund were also referred to as "the little cattle dog of the Vikings...The Swedish Vallhund is a National Breed of Sweden. Thought to date back some 800 - 900 years there is believed to be a possible connection between the breed today and the Pembroke Welsh Corgi. Historian Cliff Hubbard, a foremost authority on Welsh dogs, believed that if they are related breeds then the Swedish Vallhund would have preceded the Pembroke Welsh Corgi. There is [sic] sufficient differences between the breeds to suggest they may not have a close connection. The uncertainty may be only settled definitively with future DNA testing.*

Diddorol bod dau frid o gi mor debyg ac yn cael ei ddefnyddio i'r un pwrpas, sef gyrru gwartheg, y naill yng Nghymru a'r llall yn Sweden

## Estron pethau



Llun: Ifor Williams

Afal y dderwen yw hwn, tyfiant ar dderw wedi ei achosi gan gacwn chwyddi, *gall-wasp* yn Saesneg. Gelwir yr afal dderwen yn fath o *gall*, sef tyfiant dieithr. Dyma sylw gan Gilbert, un o ohebwy'r ar wefan trafod enwau lleoedd:

*Welsh has, amongst others, the following: Llygoden Ffrengig (French mouse) = rat;*

*Cnau Ffrengig (French nuts) = walnuts; Brech Ffrengig (French pox) = venereal disease. The word gall, 'foreigner, stranger' often takes adjectival force in Gaelic compounds of this sort: gall-luch 'rat', gall-mhuileann 'south-country mill' (as opposed to quem or native mill of Gaels); gall-chno 'walnut' gall-bhalgach 'venereal disease', what the English called 'French pox' - interesting how this disease is regularly attributed to people from another country!*

Gilbert, Yahoo enwau lleoedd

## Enwau Planhigion yn yr Occitaneg

*An okitaneg a zo bet lakaet e-barzh PlanKelt. Ar yezh-se a vez komzet e 3 bro: \* Er Frañs (31 departamant, 1/3 eus douaroù ar Republik Gall), ma n'eo ket ofisiel. \* en Italia, en un nebeut traoniennoù en Alpoù, ma'z eo ofisiel. \* e Spagn, e traonienn Aran, ma'z eo ofisiel. 11.438 meneg-anv dastumet betek-henn. Kit da welout !*

www.plantkelt.net

*The Occitan language has been put in PlantKelt. This language is spoken in 3 countries: France (31 departements, 1/3 of France), where it is not officiel, Italy, in a few alpine valleys, where it is officiel and Spain, in the Aran Valley, where it is officiel. 11,438 mention names collected until today Go and see !*

Melestr PlantKelt.

(gyda diolch i Roland Morgan)

## Anghenfill Rhostryfan

Rhostryfan 22 Ebrill 2012: Rhai wythnosau yn ôl pan oedd y tywydd yn gynhesach roedd gennym bentwr o benbyliaid llyffantod a hefyd griffit broga ar fin deor yn y pwll, ond fe ddiiflanodd yr holl benbyliaid mwya sydyn pan oerodd y tywydd. Tybed ydyn wedi mynd i drwmwsg i waelod y pwll yn disgwyl iddi gynhesu eto? Bethan Gwanas yn sgwenu yn y D.Post fod ganddi hi broblem hefo larfa'r chwilen blymio yn bwyta y penbyliaid. Roedd hynny yn digwydd yn y pwll yma llynedd hefyd ond anodd credu eu bod wedi bwyta yr holl benbyliaid mewn chydig ddyddiau. Tybed oes rhywun arall di sylwi ar hyn?

Dyma ysgrifennodd Olwen yn yr Oriol dro nol:



Dyma lun yr 'anghenfill' yn ein pwll (wel un o tua 5 ohonynt) [yn Rhostryfan]. Roeddwn wedi dal hwn a'i roi mewn powlen i fy wyres ei weld. Tynnwyd y llun hwn yn ystod mis Mehefin eleni. Roeddynt yn bwyta pob pryf a larfa creaduriaid eraill yn y pwll ond eu hoff fwyd oedd y penbyliaid - serch fod

rhwy yn rhai reit aeddfed. Roeddynt yn eu dal gyda'u pinsiars blaen ac yna yn diflannu i'r golwg hefo nhw. Fe ymchwiliais ar y we a'u hadnabod fel larfa y chwilen blymio fwya, a casglu eu bod yn 'infectio' y prae druan hefo rhyw fath o enzyme oedd yn toddi y cnawd fel fod y larfa yn gallu sugno y cnawd i fyny. Gwelais ambell i groen penbwl gwag ond yn anffodus heb dynnu llun un. Fe ddiiflanodd y pum larfa dros nos - ond mae Arthur fy mhartner wedi gweld un yno eto heddiw. Mae ambell i benbwl yn dal ar ôl - a dwi'n meddwl fod rhai yn benbyliaid madfall y dŵr. Os dof o hyd i groen gwag mi wnai adael ichi wybod.

Olwen Penbryn

## Y Pwll Chwarae Teg...MWY

Dyma ymateb i hanes y pwll chwarae teg yn Y Cymro 13 Ebrill 2012 (cewch weld yr hanes hefyd ym Mwletin 35)

"Roedd cymryd dŵr cymydog yn bechadurus ac mi gofiai ddigon o ffræo am hyn."

Clywais am rywbeth tebyg pan ym Mhatagonia rhai blynyddoedd yn ôl bellach. Yn y dyddiau cynnar roedd cyflenwad dŵr yn hanfodol ac yn brin iawn a bu rhaid ei ddogni a'i ddsbarthu yn deg. Roedd rhai dihirod yn dwyn dŵr a dyma bennill bach digri /dwys a ddysgais yn y Wladfa.

### Y Lleidr Dwr

I'r cwrdd yn araf cerddai

A'i olwg tua'r llawr

Hawdd gweled fod ei enaid

Mewn dwys myfyrdod mawr

Cyrhaeddodd ei eisteddell

Yn wylaidd a ddi-stŵr

Pwy fyth fuasai'n meddwl

Fod hwn yn lleidr dŵr"

Trefor W Evans, Llandybie

## Y Gwalchwyfyn Hofrol yna...MWY>>

Ar ol darllen yr eitem ym Mwletin 51 [am y gwalchwyfyn hofrol yng ngardd Tom ac Arfona Jones yn ardal Garn Dolbenmaen ar y 14 Ebrill ynghanol y tywydd oeraidd hwnnw ond ar ol tywydd eithriadol o gynnes mis Mawrth], dyma edrych trwy cofnodion gorsafoedd arfordirol am 2010/2011. Dim ond tri cofnod sydd ynddo yn cyfeirio am y wyfyn yn gynnar yn y flwyddyn.

Ebrill 2 - Ynys Wyth yn 2010.

Ebrill 6 - Portland, Dorset yn 2011

Ebrill 3 - Bae Tranmore, Waterford.

Felly mae un Tom yn gynnar iawn. Fel arfer mae y niferoedd yn tyfu o Mehefin ymlaen hyd at diwedd Hydref.

Bryan Jones

## Ebrill Les Larsen, Penisarwaun

Cawsom fis gwlyb, diflas, a gwyntog. Y diwrnod gorau oedd yr un olaf o'r mis pan aeth y tymheredd i fyny i 16.6C (62.F); fel arall isel oedd tymheredd y prynhawna. Hefyd nid aeth hi'n oer iawn; yr isaf oedd 0.3C ar y 4ydd o'r mis. Yn sicr yr oedd Ebrill yn fis gwlyb iawn gyda 24 ddyddiau efo glaw a chawsom drochiad o 159.5mm [6 modfedd] ohono. Dim ond un Ebrill sydd wedi bod wlybach ers 1984 a hwnnw oedd Ebrill 2005 gyda 179.5 mm. Cofiwch nid yw Ebrill yn fis gwlyb o gwbl; yn 2010 dim ond 14.5mm o law a gafwyd. Ar y 3ydd o'r mis yr oedd eira ar y mynydd tros 3000 tr. ond drannoeth cawsom dywydd stormus gydag eira dros 700tr. Yma bu ychydig o eira, eirlaw a modfedd o law. Ar y mynyddoedd yr oedd hi'n dymhestlog iawn yn peri i'r eira ffurfio lluwchfeydd anferth a bu nifer ohonynt yn llechu yma ac acw hyd at y diwrnod olaf o'r mis ac yna i fis Mai. Gan fy mod yn son am Ebrill, mae'n braf cael enwi rhai o'r blodau a fu'n addurno ymyl ein ffyrdd; bwtsias y gog, llygad Ebrill, botwm crys, blodyn llefrith, suran y coed, dant y llew, blodau'r ddraenen ddu, cywion gwyddau, blodau'r helygen, crinllys, ceiriosen, mefus gwyllt a braidd cyn ei amser, llau'r offeriad. Yr oeddwn wrth fy modd yn gweld wenci/bronwen yn croesi'r ffordd yn ddiiofn wrth ymyl Perthi. Ond y siom o'r mwyaf oedd y ffaith nad yw'r wrennol na'r bondo wedi gweld yn dda ddod yma i gyfarch y gwanwyn. Y mae'r wrennol wedi cyrraedd Ceunant, a'r gog. Mi wn i am un wedi tynnu llun y gog yn ei ardd. Yma rydym wedi colli'r gog, y wrennol y gyfinir ac yn eu lle nhw cael yr aderyn swllyd, y durtur dorhog.

Yr ydym yn brin o luniau o'r durtur dorhog. Mae'n aderyn mor gyffredin, eitha deniadol (ia, a swllyd!) ond sydd a hanes arbennig iddi - beth amdani chi ffotograffwyr? (Gol.)